**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/: RE/736/22

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14 Gorffennaf 2022

Annwyl Peredur,

Er mwyn cefnogi'r gwaith o lunio blaen-gynlluniau cyllid ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol, cytunais yn flaenorol i ysgrifennu ar yr adeg hon o'r flwyddyn i nodi amrywiaeth o ffactorau ar gyfer helpu i gynllunio cyllidebau yn y dyfodol, gan gynnwys asesiad gorau'r Llywodraeth o lefel y cyllid a fydd ar gael yn y blynyddoedd nesaf.

Gan ystyried yn gyntaf sefyllfa gyllidol gyffredinol y DU, roedd y diffyg o £144 biliwn mewn cyllid cyhoeddus yn 2021-22 yn llai na hanner y diffyg a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol, ond roedd yn dal yn uchel yn ôl safonau'r gorffennol. Mae rhagolwg mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dangos y bydd y diffyg yn gostwng i £99 biliwn yn 2022-23. Fodd bynnag, mae data 2 fis cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol yn awgrymu y gall y rhagolwg hwnnw fod yn rhy isel. Mae'r rhagolygon ar gyfer twf economaidd y DU wedi dirywio ers mis Mawrth, sydd hefyd yn debyg o gael effaith andwyol ar gyllid cyhoeddus.

Nodwyd cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yn y Gyllideb Derfynol ym mis Mawrth eleni. Diweddarwyd y rhain yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ddiweddar, a oedd yn cynnwys nifer gymharol fach o newidiadau o'i chymharu â chyllidebau atodol y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd cyllid ychwanegol ar gyfer ymateb Llywodraeth Cymru i'r rhyfel yn Wcráin a rhai newidiadau technegol er mwyn adlewyrchu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 ar lesoedd.

Roedd yr adolygiad o wariant dros 3 blynedd a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU yr hydref diwethaf yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi cyllideb amlflwyddyn, gan gynnwys cynlluniau dangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25 ochr yn ochr â dyraniadau 2022-23. Mae hyn yn rhoi darlun cliriach o'r rhagolygon cyllidebol tymor byr nag a fu'n bosibl yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, rydym yn dal i wynebu cryn ansicrwydd dros y blynyddoedd nesaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Prin yw'r twf yn nhermau arian parod yn y cynlluniau dangosol hynny ar gyfer 2023-24 a 2024-25 o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Mae hynny wedi'i lywio gan broffil setliad Llywodraeth Cymru o dan yr adolygiad o wariant. Mae'r twf isel hwnnw wedi'i waethygu ymhellach gan y rhagolygon sy'n dirywio o ran chwyddiant. Ar adeg rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2022, roedd setliad Llywodraeth Cymru eisoes yn werth £600 miliwn yn llai nag yr oedd yn hydref 2021, a hynny oherwydd chwyddiant uwch na'r disgwyl. Mae'n bosibl y bydd cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru yn 2023-24 a 2024-25 yn werth llai mewn termau real nag yn y flwyddyn gyfredol.

Mae'r rhagolygon cynyddol lwm ar gyfer chwyddiant a thwf economaidd yn debygol o greu pwysau ychwanegol ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru, a hynny o'r bil cyflogau i gaffael nwyddau a gwasanaethau, ac i'r rhaglen gyfalaf. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth y DU yn gwneud cyhoeddiadau pellach sy'n effeithio ar setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, gallai'r rhain arwain at ostyngiadau yn ogystal â chynnydd. Rydym eisoes wedi gweld gostyngiad o £30 miliwn yn ein setliad cyfalaf eleni er mwyn helpu i ariannu offer milwrol ar gyfer Wcráin.

Gan droi at brisiau a chyflogau, mae rhagolwg mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dangos y bydd y datchwyddydd cynnyrch domestig gros yn cynyddu 4.1% yn y flwyddyn ariannol gyfredol, 2.4% y flwyddyn nesaf, ac yna tua 2% fesul blwyddyn wedi hynny. Disgwylir y bydd cynnydd mwy yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn 2022-23, sef 8.0% yn ôl rhagolwg mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. (Mae asesiad diweddaraf Banc Lloegr yn dangos y bydd chwyddiant CPI yn cyrraedd uchafbwynt o tua 11% yn ddiweddarach eleni.) Disgwylir i enillion cyfartalog y DU gynyddu 5.1% yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a 2.4% y flwyddyn nesaf. Dylid nodi nad ydym yn disgwyl unrhyw gynnydd yn ein setliad er mwyn ariannu cynnydd yng nghyflogau'r sector cyhoeddus – bydd yn rhaid rheoli'r bil cyflogau â'r adnoddau presennol.

Mae gennym setliad sy'n cwmpasu 3 blynedd, sy'n rhoi darlun cliriach o ragolygon tymor byr Cyllideb Llywodraeth Cymru nag yr ydym wedi arfer ag ef yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hwn yn dangos mai ychydig iawn o dwf y bydd Llywodraeth Cymru yn ei weld mewn adnoddau dros y ddwy flynedd nesaf. Yn ogystal â hynny, mae'r rhagolygon economaidd yn ansicr ac mae'n debyg iddynt ddirywio ers rhagolwg mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Gan gadw hynny mewn cof, ni allwn fod yn sicr y bydd y setliad sydd gennym yn cael ei gynnal, gyda phosibilrwydd y bydd Llywodraeth y DU yn dargyfeirio adnoddau pellach oddi wrth raglenni sydd wedi'u datganoli yng Nghymru.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government